Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Cylch Meithrin Ysgol y Bedol

Cynllunio dan arweiniad y plentyn: Grymuso gwneuthurwyr penderfyniadau ifanc




## Effaith ...

- Dysgwyr annibynnol sy'n mynegi dewisiadau a barn yn hyderus
- Lefelau ymgysylltu gwell gan fod y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent wedi helpu i'w cynllunio
- Sgiliau rhifedd gwell drwy ddefnydd 'byd go iawn' o rifau
- Ymdeimlad cryfach o berthyn a chymuned gan fod y plant yn cymryd perchnogaeth dros yr ardal o'u cwmpas
- Ymwybyddiaeth gynnar o amrywiaeth o yrfaoedd a swyddi lleol drwy amrywiaeth o brofiadau

> *Rydym yn sicrhau bod y plant yn cymryd rhan weithredol wrth gynllunio eu dysgu unigryw eu hunain. Mae'r plant yn hapus ac yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu o ganlyniad i'r dull cynllunio effeithiol hwn*

## Cefndir

Mae Cylch Meithrin Ysgol y Bedol yn ganolfan gofal dydd llawn sy'n ffynnu ac yn cynnig profiadau cyfoethog i'r plant drwy ardaloedd dan do ac awyr agored dynodedig, gan gynnwys gardd a chwt ieir.Mae'r ganolfan yn cynnal cysylltiadau cadarn â chymuned yr ysgol, gan greu amgylcheddau dysgu amrywiol lle mae meddyliau ifanc yn datblygu'n naturiol ac yn hyderus.

## Beth mae'n ei wneud yn wahanol?

Mae Cylch Meithrin Ysgol y Bedol yn gosod y plant wrth wraidd y penderfyniadau a wneir, gan roi dewis a rheolaeth iddynt dros eu hamgylchedd dysgu a'u gweithgareddau dyddiol. Mae hyn yn cynnwys:

- cynnwys y plant wrth gynllunio eu gweithgareddau; mae'r plant yn dewis beth yr hoffent ei wneud a ble yr hoffent ei wneud
- darparu cegin ymarferol wedi'i chynllunio gan ystyried y plant
- grymuso'r plant i ddefnyddio cyfleusterau TG er mwyn dewis ac archebu eu cyflenwadau bwyd eu hunain ar gyfer y lleoliad. Caiff y plant eu cefnogi drwy'r broses; o ddewis eitemau i'w derbyn pan fyddant yn cyrraedd
- galluogi lleisiau'r plant i lywio eu profiadau dyddiol a'u cyfleoedd dysgu

Mae'r dull hwn yn trawsnewid plant o gymryd rhan pasyf i fod yn benderfynwyr, gan ddatblygu cyfrifoldeb a hunanannibyniaeth tra'n creu teimlad o berchenogaeth dros eu hamgylchedd gofal.